# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo gynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Mawrth 2021

Amser: 13.30 - 16.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/11155) yn:

http://senedd.tv/cy/11155

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Neil Hamilton AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru<br>Jon Parker, Seafish Cymru ac Aquaculture Industry Wales Ltd<br>James Wilson, Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor Cyf |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc)<br>Lorna Scurlock (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AS.

## 2 Gwaith gwaddol: dyframaethu

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor Cyf, a Seafish Cymru ac Aquaculture Industry Wales Ltd.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 3.1 Ymateb oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i adroddiad y Pwyllgor: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

### 3.2 Gohebiaeth oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021

### 3.3 Gohebiaeth oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â thlodi tanwydd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5 a 6 o'r cyfarfod heddiw

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gwaith gwaddol: dyframaeth – trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 2; a thrafod gwaith gwaddol y Pwyllgor ymhellach

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod eitem 2 a thrafododd ei waith gwaddol.

## 6 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)

6.1 Cafodd yr Aelodau friff cyfreithiol a thrafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu).

## 7 Gwaith gwaddol: pysgodfeydd

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cadeirydd, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Gwaith gwaddol: pysgodfeydd – trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 7

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod eitem 7.